

FFERM WYNT SCARWEATHER SANDS

CYDBWYSO'R DDADL



**Friends of
the Earth
Cymru**
**Cyfeillion
y Ddaear
Cymru**

Ar draws Cymru, mae modd i gynlluniau egni adnewyddadwy gael eu defnyddio yn lle dulliau traddodiadol o gynhyrchu pŵer, gan gynnwys egni niwclear. Newid i egni adnewyddadwy diogel a glan a defnyddio egni mewn ffordd effeithlon yw'r ffyrdd gorau i osgoi'r newid hinsawdd byd-eang trychinebus sy'n cael ei achosi yn bennaf o achos llosgi olew, glo a nwy.

Y mae osgoi ynni niwclear hefyd yn bwysig o achos problemau costus storio gwastraff ymbelydrol, terfysgaeth niwclear, a'r posibilrwydd o ddamweiniau difrifol.

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru yn amganyfrif y gallai 30% o'r galw am drydan yng Nghymru gael ei gyflenwi drwy ddatblygiadau egni adnewyddadwy gan gynnwys ffynonellau solar, llanw, bio-màs a phŵer y gwynt.

BYDDAI FFERM WYNT SCARWEATHER SANDS YN:

...helpu i leihau gwresogi byd-eang

Byddai'n atal 6 miliwn o dunelli o garbon deuocsid rhag cael eu rhyddhau i'r atmosffer

...helpu i sefydlu cyflenwad trydannol diogel o'n gwlad ein hunain

Gyda'n cronfeydd olew a nwy yn dod i ben, bydd mewnfario yn cynyddu gan adael Cymru a'r DU mewn sefyllfa economaidd ansicir. Gellid osgoi hyn drwy ddefnyddio mwy o egni o'r gwynt. Gallai fferm wynt Scarweather Sands ddarparu trydan yn gost-effeithlon i 82,000 o gartrefi yn Ne Cymru.

...creu swyddi

130 yn ystod cyfnod yr adeiladu. Gellid creu 15 o swyddi gan y gronfa effeithlonedd egni. Gellid creu mwy o swyddi yn annuniongyrchol drwy dwristiaeth a chynlluniau eraill.

NI FYDDAI FFERM WYNT SCARWEATHER SANDS YN:

...effeithio ar donnau nac ar y traeth

Amcangyfrifir mai tua 0.1-0.5% yw'r newid mwyaf posib a fyddai i drefn arferol y tonnau.

...gadael treftadaeth wenwynig a chostus ar ei ôl

Mae tanwyddau ffosil a phŵer niwclear yn gadael craith ecolegol ar yr amgylchedd leol a'r amgylchedd byd-eang, tra fo fferm wynt braidd yn gadael olion o gwbl.

...dinstrio twristiaeth

Gallai'r fferm wynt fod ganolbwynt ar gyfer addysg a thwristiaeth yn yr ardal. Casgliad arolwg diweddar gan MORI yn yr Alban, dywedodd 9 allan o 10 o ymwelwyr i ardaloedd prydfferthaf yr Alban nad oedd presenoldeb ffermydd gwynt yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'w mwynhad o'i gwyliau, ac mewn rhai ardaloedd, mae ffermydd gwynt wedi cyfrannu at godiad mewn twristiaeth.

...creu llygredd sŵn

Mae gwelliannau mewn technoleg tyrbinnau gwynt yn sicrhau eu bod yn ddigon tawel i beidio a tharfu ar bobl sy'n byw dim ond rhai cannoedd o fetrau i ffwrdd.

...effeithio ar adar na bywyd y môr

Nid oes yna dystiolaeth i awgrymu fod ffermydd gwynt yn gwneud unrhyw niwed sylweddol i natur yn lleol. Yn wir, gallai'r fferm wynt rwystro gor-bysgota yn yr ardal.

...dinstrio'r olygfa o'r môr

Yn amlwg mae hwn yn bwnc arbennig o oddrychol. Nid yw bod yn weladwy, fodd bynnag, yn gyfystyr a bod yn hyll. Tra fo rhai yn mynegi eu pryder am yr effaith mae'r tyrbinnau gwynt yn ei gael ar brydfferthwch y môr, mae eraill yn eu gweld fel symbolau o ddyfodol gwell, glannach, a hunan-gynhaliol.

Mewn arolwg diweddar gan Market Research Wales, dywedodd 87% o bobl y byddai'n well ganddynt weld 600 o dyrbinnau gwynt oddi ar yr arfordir nag un gorsaf niwclear.

Os gwrthodir gormod o gynlluniau egni adnewyddadwy, bydd Cymru'n dal i fod yn ddibynnol ar danwyddau ffosil ac egni niwclear, sy'n dod law yn llaw â'r posibiliad o lygredd ymbelydrol, glaw asid, a gwresogi byd-eang i'r genhedlaeth hon ac i genhedlaethau i ddod.

Pe byddem yn llwyddo i gynhyrchu 30% o'r trydan a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy (fel y fferm wynt yn Scarweather Sands) mewn wyth neu naw o flynyddoedd, fe fyddai'n Cymru'n enghraifft flaenllaw i eraill yn y newid i drydan gwyrdd, ac ar flaen y gad yn y chwyldro diwydiannol gwyrdd.

Gorffennaf 2003

Cyfeillion y Ddaear Cymru
33 Oriel Arcêd y Castell,
Caerdydd
CF10 1BY
Ffôn: 029 2022 9577
Ffacs: 029 20228775
Ebost: cymru@foe.co.uk
Gwefan: www.foecymru.co.uk (Saesneg)
www.cyddcymru.co.uk (Cymraeg)